Welsh Beekeepers' Association
Cymdeithas Gwenynwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 509929

POLISI DATRYS ANGHYTUNO NEU ANGHYDFOD

Canllaw i ymddiriedolwyr, swyddogion
a gwirfoddolwyr eraill ar ran CGC

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn diwygio'r polisi hwn, yn dilyn ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Tachwedd 2023

Mae'r Polisi hwn yn ymwneud â datrys anghytuno ac anghydfod rhwng unrhyw Swyddogion, Ymddiriedolwyr, Aelodau a/neu Aelod-Gymdeithasau Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

1. Cyflwyniad

Ni ddylid cymysgu rhwng datrys anghytuno ac anghydfod rhwng unrhyw Swyddogion, Ymddiriedolwyr, Aelodau a/neu Aelod-Gymdeithasau a datrys Gwrthdaro Buddiannau lle gall unrhyw Ymddiriedolwr gael budd personol os nad yw'n rhoi buddiannau'r gymdeithas o flaen eu buddiannau eu hunain. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau penodol i ddatrys y math hwn o wrthdaro ac mae'r manylion ym Mharagraff 24 Cyfansoddiad CGC.

Gall anghytuno/anghydfod difrifol o fewn CGC fel elusen achosi problemau i'r corff wrth redeg o ddydd i ddydd yn ogystal â gwneud drwg i'w enw da a'i hygrededd yn llygaid yr aelodau. Ni fydd y Comisiwn Elusennau (CE) yn ymwneud ag anghytuno dros bolisi neu dros feysydd eraill lle mae'r penderfyniadau a gymerwyd yn gyfreithlon, hyd yn oed os yw rhai â barn hollol wrthwynebus i'w gilydd. Mae'r CE yn ystyried bod Ymddiriedolwyr yn cael eu hethol i redeg yr elusen ac felly eu cyfrifoldeb nhw hefyd yw datrys:

- anghytuno a/neu anghydfod rhwng ei Hymddiriedolwyr ac unrhyw fuddiolwyr, sy'n cynnwys Ymddiriedolwyr.
- cwynion yn erbyn y swyddogion neu'r Ymddiriedolwyr hynny fel unigolion neu ar y cyd fel y Tîm Rheoli
- a cheisio datrys cwynion am Aelodau neu Aelod-Gymdeithasau neu anghydfod rhyngddyn nhw.

Corff democrataidd yw CGC a dylid parchu penderfyniadau mwyafrifol a gymerir mewn cyfarfodydd â chworwm o'r Tîm Rheoli, hyd yn oed lle mae barn hollol wrthwynebus i'w gilydd. Os yw hyn yn anymarferol am unrhyw reswm, amlinellir prosesau apelio neu gyfryngu isod.

2. Cymhwyso Ymarferol

a). O dan amgylchiadau arferol lle mae amser a gwybodaeth ddyledus i ystyried pob barn wedi'u rhoi, dylai'r bleidlais ddilynol a gymerir mewn cyfarfod Tîm Rheoli â chworwm gael ei hystyried yn un sy'n rhwymo pob Ymddiriedolwr.

b). Lle mae anghydfod difrifol yn digwydd rhwng unrhyw Swyddog, Ymddiriedolwr, Aelod a/neu Aelod-Gymdeithas yna pan nad yw'r anghydfod hwnnw am bwnc sy'n debygol, yn ôl trefn rhedeg pethau fel arfer, o gael ei ystyried a'i benderfynu gan y Tîm Rheoli, dylid rhoi'r drefn datrys anghydfod ar waith.

3. Gweithdrefn Datrys Anghydfod

Mae'r weithdrefn datrys anghydfod yn weithdrefn gynyddol a dylid gwneud pob ymdrech ynghyd ag ewyllys da i ddatrys y mater neu i gyrraedd cyfaddawd sy'n gweithio ar y cam cyntaf. Mae cynyddu'r anghydfod yn fwy tebygol o beryglu enw da'r Gymdeithas ac ni fydd er budd iddi. Y cam eithaf o ran datrys anghydfod fyddai mynd drwy'r llysoedd, ond dylid rhoi cynnig ar bob llwybr posibl arall o ddatrys anghydfod amgen (alternate dispute resolution – ADR) cyn ystyried y cam hwnnw. Byddai unrhyw farnwr mewn llys barn yn anghymeradwyo pe na bai pob ateb posibl wedi'i geisio gan gynnwys defnyddio cyfryngwr annibynnol.

a). Pan sylweddolir bod anghytundeb difrifol yn bodoli a all effeithio ar redeg y Gymdeithas yn rhwydd, rhaid i un neu'r ddau barti sydd mewn anghydfod godi'r mater gyda Chadeirydd CGC ac o leiaf un Ymddiriedolwr sy'n Swyddog CGC (h.y. Is-Gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Cyffredinol) mor fuan ag sy'n bosibl. Bydd y Cadeirydd, neu'r Ymddiriedolwr arall sy'n Swyddog, pwy bynnag sydd fwyaf priodol, yn nodi Ymddiriedolwr sy'n dderbyniol i'r ddau cyn pen 7 niwrnod. Dylai'r Ymddiriedolwr hwnnw siarad â'r partïon ar wahân i gasglu gwybodaeth ac i

edrych am dir cyffredin/cyfaddawd posibl er mwyn chwilio am ateb syml sydd wedi'i gyfryngu'n fewnol os yw hynny'n ymddangos yn bosibl. Os yw hynny'n methu llunio cyfaddawd cyn pen amser rhesymol (e.e. un wythnos) yna:

b) Lle nad yw'r mater yn ymwneud â gweithredu gan y Tîm Rheoli yna dylid ei godi i'w ystyried gan aelodau eraill o'r Tîm Rheoli mewn dull ffurfiol mewn cyfarfod wedi'i amserlennu a fyddai â chworwm heb bresenoldeb y rhai sydd mewn anghydfod. Lle mae'r mater yn ymwneud ag unrhyw aelod o'r Tîm Rheoli bydd cael ei eithrio o unrhyw ystyriaeth. Dylai pob unigolyn mewn anghydfod gyflwyno papur byr (Uchafswm o 2 ochr A4) yn nodi ei resymau dros yr anghydfod a dylai fod yn barod i fynychu'r Tîm Rheoli lle trafodir y mater er mwyn ateb unrhyw gwestiynau pellach. Ar ôl y cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar bydd y rhai sydd mewn anghydfod yn tynnu'n ôl gan adael i weddill aelodau'r Tîm Rheoli drafod y materion a phleidleisio er mwyn dod at benderfyniad mwyafrifol y dylent roi gwybod amdano ar y pryd hwnnw neu, cyn pen 7 diwrnod fan bellaf. Mewn corff democratig fel CGC bydd penderfyniadau o'r fath yn rhwymo pob parti. Bydd copïau o gofnodion y cyfarfod yn cael eu rhannu â phob un sy'n cymryd rhan.

c) Os nad yw un o'r rhai mewn anghydfod, neu'r ddau ohonynt, yn derbyn penderfyniad y Tîm Rheoli, yna mae dau lwybr posibl ar gyfer symud ymlaen yn bosibl. Rhaid i'r ddau barti yn yr anghydfod gytuno ar ba un o'r ddau lwybr wrth gefn i'w ddefnyddio.

> Dewis 1) Cynullir Panel Adolygu sy'n cynnwys uwch aelodau CGC gyda Llywydd CGC yn cadeirio (oni bai ei fod ef/ei bod hi yn ymwneud â'r mater fel arall, os felly, un o'r Is-Lywyddion fydd Cadeirydd y Panel). Byddant yn ystyried pob e-bost, adroddiad, cyflwyniadau ysgrifenedig a chofnodion cyfarfodydd perthnasol y Tîm Rheoli a bydd eu penderfyniad yn derfynol.
>
> Dewis 2) Chwilir am gyfryngwr annibynnol o restr sy'n Atodiad i'r arweiniad hwn. Mae Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol (WCVA) yn gallu bod yn ddefnyddiol wrth adnabod cyfryngwr priodol sydd â phrofiad o weithio dros y sector Elusennol. Mae rhai mudiadau'n cynnig gwasanaeth am ddim. Mae'r math hwn o Ddatrys Anghydfod Amgen wedi cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth eang o anghydfodau a fyddai fel arall wedi arwain at achosion llys drud iawn.